**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LN/5029/2
Rocio Cifuentes MBE
Comisiynydd Plant Cymru

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Rocio

Ym mis Rhagfyr 2003 ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, fy rhagflaenydd i ddiolch i chi am eich adroddiad ar hiliaeth mewn ysgolion uwchradd, "Cymerwch y peth o ddifrif". Hoffwn i ddiolch hefyd i chi am yr adroddiad pwysig hwn a'r dystiolaeth sydd ynddo, a nodi ein hymateb i'ch argymhellion.

Rydych yn ymwybodol, rwy'n siŵr, bod rhyngweithio sylweddol rhwng eich argymhellion chi a'r ymrwymiadau addysg yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd hefyd ag argymhellion ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd fy rhagflaenydd a minnau eisiau sicrhau, wrth ymateb i'ch adroddiad, ein bod yn gallu adlewyrchu hynny'n llawn a sicrhau eglurder o ran yr ymrwymiadau i'w gweithredu nawr ac yn y dyfodol. O ganlyniad, mae wedi cymryd ychydig mwy o amser i ymateb i'ch adroddiad na'r arfer. Ymddiheuraf am yr oedi hwn

Mae angen i mi hefyd roi gwybod i chi bod canlyniad yr adolygiad *Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion* wedi'i gyhoeddi. Cyhoeddodd fy rhagflaenydd ddatganiad ar hyn ym mis Ionawr, a byddwch yn ymwybodol bod y sefyllfa mewn perthynas â phartneriaid addysg yn newid, yn enwedig o ran gwella ysgolion. Mae hyn yn golygu bod rhai o'ch argymhellion a gyfeiriwyd at gonsortia addysg rhanbarthol wedi cael eu disodli, i ryw raddau. Fodd bynnag, rwy'n benderfynol o sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn ganolog i'n gwaith ehangach gydag ysgolion, a bod yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi hiliaeth mewn ysgolion.

Mae'r gwaith gwrth-hiliaeth gydag ysgolion a'r sector addysg yn parhau i gael ei ysgogi gan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'n huchelgais i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Caiff fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Efallai eich bod hefyd wedi gweld yr ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan fy nghyd-Aelod, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Rwyf wedi ystyried eich adroddiad a'ch argymhellion yn ofalus. Mae llawer yn eich adroddiad yn peri poendod i mi, yn enwedig o ran profiadau ein plant a'n pobl ifanc. Fodd bynnag, wrth ymateb, ni allaf ond gwneud sylw ar yr argymhellion hynny sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ei gweithredu. Ni allaf wneud ymrwymiadau ar ran sefydliadau eraill.

Mae fy ymateb i'r argymhellion hynny ynghlwm wrth y llythyr hwn. Rwyf hefyd am roi sicrwydd i chi fy mod yn benderfynol o sicrhau bod ein system addysg yn wrth-hiliol, a bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi. Bydd ein gwaith ar wrth-hiliaeth mewn ysgolion yn adeiladu ar eich canfyddiadau.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. ***Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurhad yn y canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig sydd ar ddod sut mae'n disgwyl i ysgolion ymateb i ddigwyddiadau hiliol, eu cofnodi, ac ymdrin â nhw.***

**Derbyn** - Bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r canllawiau gwrth-fwlio statudol, presennol 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' ar gyfer ysgolion. Gwneir hyn drwy ddiweddaru'r canllawiau presennol i gynghori lleoliadau addysg ar fynd i'r afael ag achosion o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn effeithiol ac ar sut i fonitro digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, a'r defnydd o ddata yn effeithiol. Mae gwaith paratoi wedi dechrau, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar gyfer y canllawiau diwygiedig yn hydref 2024.

Byddwn hefyd yn ystyried y mecanweithiau sydd eu hangen i lunio fformat cyson ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau ac aflonyddu hiliol mewn ysgolion a cholegau. Gwneir hyn drwy brosesau mwy cadarn ynghylch casglu data, gan gynnwys gwybodaeth am y ffordd yr ymdriniwyd â digwyddiadau, y camau a gymerwyd i ymateb iddynt ac a gafodd yr achos ei ddatrys yn llwyddiannus o safbwynt y dioddefwr. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion a dysgwyr, yn y flwyddyn i ddod.

Ar hyn o bryd, mae ein canllawiau gwrth-fwlio statudol yn cynghori ysgolion i gasglu data ac ymateb yn effeithiol i adroddiadau o fwlio a/neu aflonyddu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol. Rydym hefyd yn cynghori bod ysgolion yn rhannu'r data hyn gyda'u hawdurdod lleol a'u bod yn cael eu casglu ar lefel awdurdod lleol.

2. ***Dylai Llywodraeth Cymru greu canllawiau atodol i nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran ymateb ysgol ehangach i hiliaeth, yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP), gan egluro perthnasedd hynny i bob ysgol, nid dim ond y rhai sy'n fwy ethnig amrywiol.***

**Derbyn mewn egwyddor** – Bydd yr angen am fwy o eglurder yn rhan o'n hadolygiad a'n diweddariad o'n canllawiau gwrth-fwlio Hawliau, Parch, Cydraddoldeb (RRE). Cyn gynted ag y byddwn wedi cwblhau'r adolygiad hwnnw, byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw adnoddau neu becynnau cymorth ychwanegol ac, os felly, byddwn yn sicrhau eu bod yn ddwyieithog ac yn berthnasol i bob ysgol yng Nghymru.

***8. Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei chanllawiau gwrth-fwlio diwygiedig, gyfarwyddo ysgolion i ddelio â digwyddiadau hiliol a'u cofnodi fel rhywbeth sy'n cyfateb i ddigwyddiadau diogelu gan sicrhau gwelededd a hygyrchedd systemau rhanbarthol mewn ysgolion ar gyfer codi pryderon.***

**Derbyn mewn egwyddor** - Rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau RRE wrth arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad mewn perthynas â'u

hysgolion, a gwneud trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sy'n ddysgwyr yn eu hysgolion.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau statudol "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" i adlewyrchu pwysigrwydd ymateb yn briodol i ddigwyddiadau hiliol, a sicrhau bod plant sy'n cael eu gwthio i'r cyrion oherwydd eu hil yn cael eu cadw'n ddiogel. Bydd swyddogion yn gweithio ar y diweddariad hwn a chanllawiau gwrth-fwlio RRE yn ystod y misoedd nesaf ac yn sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r sail statudol ar gyfer cofnodi achosion fel rhai sy'n codi pryderon diogelu, a bwrw ymlaen ag ymateb iddynt yn briodol. Wrth ddiweddaru ein canllawiau byddwn yn ceisio codi statws digwyddiadau hiliol wrth i ysgolion adrodd amdanynt, gan barchu'r trefniadau penodol sydd eu hangen hefyd mewn perthynas â phryderon diogelu lle mae plentyn mewn perygl.

***9. Dylai hyfforddiant am hiliaeth a gwrth-hiliaeth ac adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol fod yn orfodol i'r holl arweinwyr addysg, athrawon a staff cefnogi, a chael ei adnewyddu o leiaf bob 3 blynedd, yn debyg i hyfforddiant diogelu. Er mwyn sicrhau safon a chysondeb, dylid cydlynu hyn trwy rwydwaith DARPL, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a'i gysylltu â gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg (NAEL).***

**Gwrthod** - Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu dysgu proffesiynol gorfodol mewn perthynas â meysydd penodol o ymarfer proffesiynol. Y rheswm dros hyn yw'r angen am ddisgresiwn i ganiatáu i ddarparwyr addysg sicrhau bod y dysgu a wneir gan eu staff yn adlewyrchu'r anghenion yn eu cymunedau ac a ddangosir gan eu dysgwyr. Mae'r unig eithriadau yn ymwneud â chymwysterau proffesiynol a hyfforddiant penodol a bennir gan gyflogwyr e.e. GDPR y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar y defnydd o HMS, sy'n nodi ein bod yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r hyn sy'n cyfateb i bedwar diwrnod HMS i fynd i'r afael â blaenoriaethau addysg cenedlaethol ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru, diwygiadau ADY, Tegwch mewn Addysg a Cymraeg 2050 ar waith, ac i alluogi'r holl staff i ymgysylltu â dysgu proffesiynol a chydweithio. Gall ysgolion ddefnyddio eu dyddiau HMS sy'n weddill i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol unigol, a gallai hyn gynnwys gwrth-hiliaeth.

Rydym wedi ymrwymo i'r prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), sy'n gonglfaen i'n dull gweithredu o ran ymgorffori arferion gwrth-hiliol yn y system addysg yng Nghymru. Mae DARPL a'i bartneriaid yn cefnogi gweithwyr proffesiynol ym myd addysg i ddeall a datblygu arfer gwrth-hiliol ac anhiliol. Mae adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad ar gael mewn un lle sef campws rhithwir DARPL. Mae gwaith i ddiweddaru'r ystorfa hon yn barhaus yn parhau. Gall ysgolion ddefnyddio'r adnoddau hyn yn ystod dyddiau HMS, a byddem yn eu hannog i wneud hynny.

Mae hyfforddiant pwrpasol ar gael mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau gwrth-hiliol. Er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb, cymeradwywyd darpariaeth DARPL ar gyfer uwch arweinwyr a llywodraethwyr gan yr Academi Genedlaethol ar

gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn 2023. Bydd darpariaeth ehangach DARPL yn cael sicrwydd ansawdd o dan broses ardystio dysgu proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru.

***10. Dylid datblygu mwy o adnoddau hyfforddi a dysgu proffesiynol sy'n cwmpasu gwahanol fathau o hiliaeth sy'n amlwg yng Nghymru, gan gynnwys hiliaeth ar sail ffydd (yn arbennig Islamoffobia a gwrth-Semitiaeth), hiliaeth yn erbyn Ewropeaid gwyn, hiliaeth yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a hiliaeth yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches.***

**Derbyn** – Lansiwyd prosiect dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL) Llywodraeth Cymru yn hydref 2022 ac mae'n hanfodol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru a chyflawni safonau uchel a dyheadau i bawb. Mae dros 27,000 o weithwyr proffesiynol ym myd addysg wedi ymgysylltu â DARPL trwy ddigwyddiadau byw, ymgynghoriadau ac adnoddau anghydamserol ar ddechrau 2024.

Bydd adnoddau'r prosiect (DARPL) yn cael eu hadolygu, eu hadnewyddu a'u hymestyn yn barhaus fel y bo'n briodol. Mae cam cyntaf prosiect i adolygu ac adnewyddu yn gynhwysfawr adnoddau dysgu proffesiynol gwrth-hiliol y gellir eu cyrchu drwy gampws rhithwir DARPL wedi digwydd o fis Ionawr i fis Gorffennaf 2024.

Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd ein canllawiau newydd ar gyfer Sipsiwn, Roma, a Theithwyr i ysgolion. Pwrpas y canllawiau anstatudol newydd "Dathlu a Chyfranogi: canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr " yw darparu enghreifftiau diweddar o arfer effeithiol i ysgolion a lleoliadau addysg. Bydd swyddogion yn trafod gyda rhanddeiliaid o wahanol gymunedau y cyfleoedd i ddatblygu mwy o adnoddau i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr addysg i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae DARPL hefyd wedi cynnal gweithdy yn tynnu sylw at y problemau sy'n wynebu cymunedau a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

***11. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru eu canllawiau i lywodraethwyr ysgol i wneud hyfforddiant ymwybyddiaeth hil ac adnabod ac ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol yn orfodol i bob llywodraethwr fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Dylid cyflwyno'r hyfforddiant yma trwy Awdurdodau Lleol.***

**Derbyn** – Rydym wrthi'n diweddaru ein canllawiau ar hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru. Bydd ymwybyddiaeth o hil a chydnabod ac ymateb i hiliaeth yn cael eu cynnwys yn y fersiwn newydd sydd i'w chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024.

**13.** ***Dylid ystyried gwaith parhaus i gefnogi llywodraethwyr ysgol i gynyddu eu llythrennedd hil, gan adeiladu ar ganfyddiadau adolygiad thematig Estyn o***

***Lywodraethwyr Ysgol ac ymgorffori gwaith sy’n mynd rhagddo gydag NAEL i gefnogi Llywodraethwyr, yn ogystal â DARPL.***

**Derbyn** (mewn perthynas â'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei arwain) - Byddwn yn parhau i atgyfeirio llywodraethwyr ysgolion at gefnogaeth drwy DARPL a Chynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol. Trwy ein bwletin ar gyfer llywodraethwyr ysgol byddwn yn tynnu sylw at wrth-hiliaeth ac yn gwahodd siaradwyr allweddol i roi cyflwyniadau i'n hamryfal rwydweithiau. Mae cam cyntaf prosiect i adolygu ac adnewyddu adnoddau dysgu proffesiynol sydd ar gael drwy gampws rhithwir DARPL wedi'i drefnu o fis Ionawr i fis Gorffennaf 2024. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o adnoddau sydd wedi'u targedu'n benodol at lywodraethwyr ysgolion.

***15. Dylai fod lle penodol ar Hwb i athrawon gael gwybodaeth am hiliaeth a gwrth-hiliaeth, gan gynnwys adnoddau gwrth-hiliol, coladu cwestiynau cyffredin, a rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys ynghylch terminoleg.***

**Derbyn yn rhannol** - Mae hidlo tacsonomeg ar Hwb yn caniatáu i athrawon weld yr holl adnoddau a gwybodaeth am hiliaeth a gwrth-hiliaeth gan gynnwys adnoddau gwrth-hiliol. Gellir hidlo pob pwnc o dan Faes Cwricwlwm y "Dyniaethau" drwy ddefnyddio "Amrywiaeth" a "Cynefin". Diffinnir "Cynefin" yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru fel y "man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae’r bobl a’r dirwedd o’n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae’r golygfeydd a’r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod." Cynefin yw'r "lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy’n parhau i ffurfio’r gymuned sy’n trigo yno."

Nod yr adnoddau ar Hwb yw cefnogi dull mwy cyfannol o ymdrin â phynciau addysgu. Er ei bod yn bwysig sicrhau bod y rhain ar gael drwy'r adran Adnoddau, rhaid i ni hefyd osgoi ynysu adnoddau o'r fath oddi wrth gyd-destun ehangach y cwricwlwm. Mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol ac rydym eisiau sicrhau bod yr arfer wedi'i wreiddio ym mhob maes o'r cwricwlwm. Gallai ynysu'r adnoddau arwain at eu defnyddio'n llai aml yn y cwricwlwm ehangach. Mae gan adnoddau dagiau hefyd, sy'n cael eu hychwanegu'n raddol wrth i adnoddau newydd gael eu hadolygu. Mae'r tagiau perthnasol ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwrth-hiliaeth
- Y Gymanwlad
- Cymunedau
- Amrywiaeth ddiwylliannol
- cynefin
- Amrywiaeth
- cymunedau lleiafrifol
- Cymunedau lleiafrifoedd ethnig
- Hanes lleiafrifol

- Hiliaeth:

Mae Dysg, y cylchlythyr e-bost wythnosol ar gyfer addysg a sgiliau sy'n mynd i bob ysgol yng Nghymru, yn caniatáu i Lywodraeth Cymru dynnu sylw at yr adnoddau diweddaraf a rhannu astudiaethau achos sy'n gysylltiedig â meysydd y mae ymarferwyr wedi gofyn amdanynt.

Mae Hwb hefyd yn ystorfa o adnoddau ar gyfer Dysgu Proffesiynol, gyda chategori pwrpasol ar gyfer "Lles, Tegwch a Chynhwysoldeb". Lansiwyd y platfform rhithwir Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) newydd ym mis Hydref 2022, sy'n ganolbwynt ar gyfer dysgu ac adnoddau i'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg a gofal plant i ddatblygu dealltwriaeth o arfer gwrth-hiliol a'i ddatblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ym maes addysg, gofal plant a chwarae yn datblygu'r adnoddau ac yn arfer ymarferion gwrth-hiliol sy'n cefnogi'r nod o fod yn Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.

***16. Yn unol â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, dylai plant a phobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd rheolaidd, effeithiol i ddysgu am hil ac amrywiaeth, gan gynnwys dysgu trwy brofiad ar ffurf ymweliadau a darparwyr allanol sydd wedi profi hiliaeth yn eu bywydau. Byddai hyn yn ategu ac yn cyd-fynd â'r wricwlwm ysgol amrywiol.***

**Derbyn** - mae dysgu drwy brofiad yn cymryd sawl ffurf o fewn ysgol neu leoliad a bydd yn rhan annatod o wireddu'r cwricwlwm. Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun. Byddem yn disgwyl i ymarferwyr gydweithio a thynnu ar amrywiaeth o randdeiliaid priodol i ddarparu profiadau cyfoethog ac o'r iawn ryw i ddysgwyr. Mae profiadau ystyrlon wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau bywyd go iawn a bydd denu rhai sydd â phrofiadau bywyd ynghylch hyn yn helpu i ddyfnhau dealltwriaeth dysgwyr. Wrth ystyried dysgu drwy brofiad, dylai ymarferwyr adlewyrchu amrywiaeth diwylliant mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a chynnig hyn mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon gan roi pwrpas i ddysgu wrth ddatblygu ehangder a dyfnder dealltwriaeth hefyd. Mae'r ffordd y mae lleoliadau neu ysgolion yn ymdrin â hyn yn dibynnu ar ddiwallu anghenion eu dysgwyr eu hunain.

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy Hwb, Dysg a rhwydweithiau eraill yn parhau i hyrwyddo defnyddio Hwb a champws rhithwir DARPL i sicrhau ein bod yn darparu cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau ategol i ymarferwyr sy'n ymwneud â chyfraniadau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gorffennol a'r presennol.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda darparwyr allanol i greu adnoddau sy'n creu cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddysgu am hil ac amrywiaeth.

Yn ddiweddar, lansiodd Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, boster ac adnodd ar-lein 'Brethyn Cymru', adnodd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth am 25 o unigolion a digwyddiadau allweddol yn hanes Cymru. Mae pob ysgol gynradd ac uwchradd wedi cael pum copi o boster 'Brethyn Cymru', sy'n rhoi cyfle i ymarferwyr a dysgwyr archwilio eu hanes amlddiwylliannol

fel cenedl. Mae'r cod QR sydd ar y poster yn arwain at ragor o wybodaeth ar Hwb, a gellir defnyddio'r ddwy ran i ysgogi trafodaeth a mwy o waith.

Datblygwyd yr adnodd yn dilyn adroddiad yr Athro Charlotte Williams a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd yr adnodd ei ddatblygu yn sgil yr argymhelliad yn adroddiad yr Athro Charlotte Williams y dylid creu adnoddau a deunyddiau trawsbynciol i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn dysgu ac addysgu am amrywiaeth yng Nghymru nawr ac yn y gorffennol.

Mae'r Map Cymunedol Rhyngweithiol (Cymuned) ar gael ar Hwb. Wedi'i greu gan Atebol, mae'r adnodd yn tynnu sylw at gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol eraill yng Nghymru. Cafodd y map ei gynllunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, drwy weithio'n agos gydag ymarferwyr, arbenigwyr addysgol ac aelodau o'r cymunedau sydd ar y map. Mae'r map yn helpu ysgolion i archwilio ardaloedd lleol o arwyddocâd a manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am brofiadau bywyd o hiliaeth. Bydd Atebol yn diweddaru'r map bob mis Rhagfyr tan 2029.

Rydym yn parhau i fonitro effaith a chynnydd Adroddiad yr Athro Charlotte Williams. Mae swyddogion wedi sefydlu proses i adolygu'r holl adnoddau presennol ar Hwb i gefnogi gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys adolygiad o'r tagio a'r dacsonomeg i alluogi ymarferwyr i lywio'n hwylus at adnoddau sy'n ymwneud â'r themâu allweddol hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan athrawon fynediad at adnoddau  wedi'u gwerthuso sy'n gysylltiedig â chyfraniadau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gorffennol a'r presennol.

Mae'r Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo. Mae hon yn rhaglen ymchwil ar raddfa fawr, sy'n defnyddio cymysgedd o ddulliau ac yn archwilio safbwyntiau a phrofiadau uwch arweinwyr, ymarferwyr, dysgwyr a'u rhieni / gofalwyr, trwy arolygon meintiol cynrychioliadol, yn ogystal ag astudiaethau ansoddol. Mae gwaith dwys wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 i ddeall i ba raddau y mae cymunedau a chyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu rhoi ar waith fel y disgwylid.

**17.** ***Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar frys gyda'r gwaith a gynlluniwyd i ddatblygu system Cymru gyfan o gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion, gan sicrhau bod sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data yma, ac egluro gwahanol rolau a chyfrifoldebau ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff eraill o fewn y system yma*.**

**Derbyn** – fel y nodwyd yn fy ateb i argymhelliad un, byddwn yn archwilio'r mecanweithiau sydd eu hangen i gynhyrchu fformat adrodd cyson ar gyfer digwyddiadau hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion a cholegau. Gwneir hyn drwy brosesau casglu data mwy cadarn, gan gynnwys gwybodaeth am y ffordd yr ymdriniwyd â digwyddiadau, y camau a gymerwyd ac a gafodd yr achos ei ddatrys yn llwyddiannus i'r dioddefwr. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion a dysgwyr, yn ystod y flwyddyn i ddod.

**18.** ***Dylai'r gwaith yma (Rhif 17) gan Lywodraeth Cymru gynnwys gweithio gydag ysgolion i gytuno ar ddiffiniadau clir, ymarferol o hiliaeth a digwyddiadau hiliol, fel bod modd casglu data cyson ac ystyrlon.***

**Derbyn** - Fel y nodwyd yn fy ymateb i rif 17, bydd fy swyddogion yn ystyried y dystiolaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu gan ysgolion, yr ymatebion a'r canlyniadau i ddysgwyr, y rhai a brofodd ddigwyddiad hiliol yn ogystal â'r unigolyn/unigolion a gyflawnodd y weithred.

***20. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Estyn ddiwygio'u Fframwaith Arolygu Cyffredin er mwyn sicrhau ffocws mwy pendant ar sut mae ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau hiliol, yn eu cofnodi ac yn ymdrin â nhw, gan sicrhau bod llais a barn disgyblion ar hyn yn cael eu clywed trwy eu harolygiadau.***

**Gwrthod**. Mae Estyn yn annibynnol ar y llywodraeth ac felly'r Prif Arolygydd sy'n gyfrifol am fframwaith a threfniadau arolygu Estyn. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod dull presennol Estyn o arolygu ysgolion yn darparu cyfleoedd i arolygwyr werthuso ffordd y mae ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn mynd ati i ddiogelu plant, ac i ba raddau y mae arweinwyr yn hyrwyddo a chefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles o fewn cymuned yr ysgol neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion ac Unedau yn ymateb i unrhyw ddigwyddiad honedig sy'n ymwneud â bwlio, ei gofnodi ac yn mynd i'r afael â'r mater. Mae hyn yn cynnwys unrhyw achosion o fwlio ar sail nodweddion gwarchodedig, a bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, aflonyddu a gwahaniaethu.

Mae holiaduron cyn-arolygiad Estyn ar gyfer dysgwyr yn gofyn cwestiynau penodol ynghylch a ydynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a sut maen nhw'n cael eu trin gan eraill. Os yw'r ymatebion yn nodi unrhyw ymddygiad amhriodol o unrhyw fath gan gynnwys hiliaeth, mae'n bosibl fod pryderon ynghylch cwricwlwm yr ysgol neu fod y ffordd y mae staff yr ysgol yn ymateb i ddigwyddiadau, yn broblem. Bydd arolygwyr yn ystyried hyn yn ystod arolygiad. Mae arolygwyr yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion yn ystod arolygiad ac yn gofyn cwestiynau penodol ynghylch a ydynt yn teimlo'n ddiogel, sut mae eraill yn ymddwyn, unrhyw achosion o fwlio ac ymateb yr ysgol iddynt. Mae'r grwpiau ffocws ffurfiol yn rhoi cyfle i archwilio materion a godwyd yn yr holiaduron cyn-arolygiad.

Mae Estyn wedi diwygio ei drefniadau arolygu ac yn ddiweddar maent wedi bod yn treialu'r trefniadau hyn gydag ysgolion yn barod i'w rhoi ar waith o fis Medi 2024. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae Estyn wedi treialu holiaduron cyn-arolygiad diwygiedig i ddysgwyr ar gyfer casglu gwybodaeth ddemograffig yn genedlaethol, er mwyn eu galluogi i ddadansoddi unrhyw dueddiadau mewn ymatebion i'r arolwg sy'n seiliedig ar hil ar draws sampl genedlaethol o ysgolion.

Trwy drefniadau arolygu newydd Estyn bydd arolygiadau hefyd yn parhau i gynnwys ffocws ar ba mor dda y mae ysgolion yn gwneud y canlynol:

- llunio a chyflwyno **cwricwlwm** sydd:

- yn datblygu dealltwriaeth o hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, a phrofiadau a barn am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach.
- galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth cymdeithasau drwy ddod i gysylltiad â straeon o'r gorffennol a'r presennol o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, sy'n rhychwantu gwahanol gymunedau yn ogystal â chynnwys yn arbennig straeon pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus at amrywiaeth (RSE).
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd.

- cefnogi ymddygiad cadarnhaol, ac yn cofnodi, adrodd am ac ymateb yn gywir i bob math o fwlio ac aflonyddu.

Mae Estyn hefyd yn darparu hyfforddiant parhaus i staff, gan gynnwys arolygwyr, er enghraifft trwy eu cynhadledd staff ddiweddar ym mis Ionawr 2024 a oedd yn canolbwyntio ar 'berthyn' ac yn benodol arfer gwrth-hiliol.

***21. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad arfer da i ganfod arfer da sydd eisoes yn bodoli wrth ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol ymhlith ysgolion.***

**Derbyn mewn egwyddor -** Byddwn yn trafod gydag Estyn botensial cynnal adolygiad arfer da wrth ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion fel rhan o'n trafodaethau cylch gwaith blynyddol yn y dyfodol.

O fewn cylch gwaith blynyddol Estyn 2024-25, rydym wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiadau thematig ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd a cholegau AB. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynnwys cwestiynau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddulliau ysgolion a cholegau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwael, gan gynnwys bwlio disgyblion â nodweddion gwarchodedig.

Trwy ei gylch gwaith yn 2024-25, ar sail tystiolaeth a gasglwyd o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall, bydd Estyn yn rhoi diweddariadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ar ystod o feysydd gan gynnwys gwrth-hiliaeth.

Mae Estyn hefyd yn bwriadu ystyried arferion gwrth-hiliol fel thema drawsbynciol yn eu Hadroddiad Blynyddol 2023-24.

***22. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tasglu sy’n cynnwys cynrychiolwyr addysg, diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid i archwilio a datblygu ymyriadau priodol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy’n mynegi barn neu ymddygiad sy’n camwahaniaethu.***

**Gwrthod** – Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eisoes yn gweithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid, a thrwy'r Grant Plant a Chymunedau a'r cyllid ar gyfer Ymgysylltiad Cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu, maent yn darparu prosiectau atal a dargyfeirio sy'n cynnwys rhai ar ymddygiad gwahaniaethol. Drwy'r mecanweithiau a'r fforymau presennol hyn, bydd swyddogion yn archwilio sut orau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ddeall y gwahanol ffurfiau ar iaith, yn ogystal â gweithio trwy ddull ataliol.

Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i asesu lefel y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n profi troseddau casineb, a allai gynnwys digwyddiadau ac ymosodiadau hiliol. Cyhoeddwyd yr adroddiad, Plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru: Darpariaeth bresennol o wasanaethau", ym mis Mawrth 2020, a nododd nifer o fylchau yn y ddarpariaeth ar draws Cymru. Cyhoeddwyd ail adroddiad, "'Mae'n torri calon' Sgyrsiau â phlant a phobl ifanc y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt yng Nghymru " ym mis Medi 2021. Cofnododd yr adroddiad sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan droseddau casineb yng Nghymru, a oedd unwaith eto'n tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth. Ar sail y canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru ers mis Ebrill 2022 i ddarparu gwasanaeth cymorth pwrpasol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.